RHAI CWESTIYNAU AC ATEBION YNGLŶN Â CHOMISIWN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

1. Pam fod angen Comisiwn o gwbl?
Mae hyn yn ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

2. Pam nad oedd angen Comisiwn dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 flaenorol?
Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel un endid cyfreithiol – "corff corfforaethol" – yr oedd y swyddogaethau seneddol a llywodraethol yn cael eu harfer ynddo. Yr oedd bod yn gorff corfforaethol yn golygu yn y gyfraith ei fod yn parhau i fodoli hyd yn oed ar amser etholiadau pan nad oedd Aelodau yn y Cynulliad.

3. Sut wnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 newid y sefyllfa?
Yr oedd y Ddeddf 2006 yn gwahanu'n ffurfiol y ddwy rôl (seneddol a llywodraethol) a chreu endidau cyfreithiol ar wahân i'w cyflawni. Gan fod y Cynulliad yn cynnwys grŵp o Aelodau sy'n dal swyddi am gyfnodau penodol (o'u hethol hyd at eu diddymu), golyga nad yw'r Cynulliad yn gorff parhaol, parhaus sy'n gallu ymgymryd â chontractau tymor hir na bod yn berchennog eiddo. Yr oedd Deddf 2006 felly'n creu'r Comisiwn fel endid cyfreithiol parhaol (corff corfforaethol) a all wneud hynny.

4. A oes gan gyrff seneddol eraill drefniadau tebyg?
Oes. Mae yna Gomisiwn Tŷ'r Cyffredin, Corff Corfforaethol Senedd yr Alban a Chomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r cyfan ohonynt yn cyflawni swyddogaeth debyg i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er bod rhai gwahaniaethau yn yr ystod o swyddogaethau maent yn eu cyflawni.

5. Beth yw swyddogaethau'r Comisiwn ?
Prif rôl y Comisiwn, fel y nodir yn y Ddeddf, yw darparu'r Cynulliad â'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i alluogi'r Cynulliad i weithredu. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi i swyddogaethau mewn cysylltiad â chyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad i gael eu rhoi i'r Comisiwn. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhoi i'r Comisiwn y swyddogaeth o benderfynu ar gyflogau a lwfansau ac o ethol Ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau.

6. Pwy yw aelodau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
Mae'r Comisiwn yn cynnwys Llywydd y Cynulliad a phedwar Aelod Cynulliad arall, un yn cael ei enwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

7. A yw aelodaeth y Comisiwn yn newid?
Ydy, ond mae'r Comisiwn ei hun yn parhau i fodoli, yn y gyfraith. Hefyd mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer aelodau'r Comisiwn i barhau yn eu swyddi hyd y ceir rhywun yn eu lle *ar ôl* etholiad. Felly nid oes fyth

gyfnod pan fyddai'r Comisiwn yn analluog i wneud penderfyniadau am nad oedd ganddo aelodau.

8. A yw aelodau'r Comisiwn yn gynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol a enwebodd hwy?

Mae Aelodau'r Comisiwn yn dal swyddi statudol. Er (ar wahân i'r Llywydd, sy'n dal swydd *ex officio)* y cânt eu henwebu gan eu grwpiau gwleidyddol unigol nid ydynt yn gynrychiolwyr y grwpiau hynny a, thra'u bod â hawl i ystyried safbwyntiau eu cydweithwyr, disgwylir iddynt arfer barn annibynnol ac i wneud penderfyniadau er budd y Cynulliad yn gyfan. Mae rhestr o'r Comisiynwyr a'u portfolios ac enghreifftiau o'r gwaith maent wedi ymgymryd ag ef yn Atodiad B.

9. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Comisiwn a phwyllgor y Cynulliad (megis y cyn Bwyllgor y Tŷ yr oedd ei swyddogaethau rywfaint yn debyg i swyddogaethau'r Comisiwn)?

Mae sefyllfa'r Comisiwn yn wahanol i bwyllgor. Gall pwyllgor dim ond gweithredu cyn belled â bod y pŵer hwnnw wedi'i ddirprwyo iddo gan y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gorff ar wahân i'r Cynulliad ac mae ganddo ei set o bwerau statudol a chyfyngiadau cyfreithiol arbennig ei hun.

10. Sut mae'r Comisiwn yn dod i'w benderfyniadau?

Er y byddai disgwyl i'r Comisiwn fel unrhyw gorff tebyg geisio cyrraedd consensws bob amser, pe digwydd bod rhaniad barn fe allai penderfyniadau gael eu gwneud yn syml ar sail mwyafrif.

11. A oes gan y Cynulliad unrhyw reolaeth dros y modd mae'r Comisiwn yn arfer ei bwerau?

Mae'r Ddeddf a'r Rheolau Sefydlog yn rhoi i'r Cynulliad ddau bŵer wrth gefn ar gyfer rheolaeth dros y Comisiwn.

Yn gyntaf, gall y Cynulliad, trwy gynnig, roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ("cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol") mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiwn. Gallai'r rhain ofyn bod y Comisiwn yn gweithredu mewn modd penodol er na allent ofyn bod y Comisiwn yn gweithredu'n anghyfreithlon (er enghraifft mewn modd sy'n groes i gyfraith Ewropeaidd).

Yn ail, gall y Cynulliad, trwy gynnig, waredu'r cyfan neu rai o'r Comisiynwyr presennol (ar wahân i'r Llywydd, sy'n aelod o'r Comisiwn cyn belled â'i b/fod ef/hi yn dal y swydd honno.).

12. A oes ffyrdd eraill y mae'r Comisiwn yn dal cyfrifoldeb?

Bydd craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar gynigion y Comisiwn o ran ei gyllideb, fe'u gosodir gerbron y Cynulliad gydag esboniad manwl a bydd pleidleisio arnynt gan y Cynulliad cyfan. Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am y gwasanaethau mae'n eu darparu trwy waith craffu gan Bwyllgorau'r Cynulliad yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau'n atebol o ran materion manwl i'r Cynulliad trwy ohebiaeth a thrwy gwestiynau llafar. Mae pob Comisiynydd yn ymateb i gwestiynau llafar mewn cyfarfodydd

llawn y Cynulliad ar sail cylchdro yn ystod y flwyddyn. Gall Aelodau hefyd gyflwyno cwestiynau ar gyfer eu hateb yn ysgrifenedig. Caiff papurau a chofnodion cyfarfodydd y Comisiwn eu cyhoeddi ar ein gwefan a gellir eu gweld yma here <http://www.assemblywales.org/abthome/abt-commission/abt-commission-agendas.htm>.

13. Pa gyfyngiadau cyfreithiol sy'n berthnasol i'r modd mae'r Comisiwn yn gweithredu ?

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod nifer o egwyddorion y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu defnyddio wrth wneud ei waith, yn cynnwys cyfle cyfartal, hybu datblygiad cynaliadwy a thrin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Fodd bynnag, mae hefyd yn atebol i ddyletswyddau cyfreithiol cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl gyrff yn ogystal â rhai dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus. Ymhlith y dyletswyddau penodol hyn mae dyletswydd i gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

14. Beth yw'r berthynas rhwng staff a'r Comisiwn?

Un o brif swyddogaethau'r Comisiwn yw cyflogi staff, sy'n gweithio i ddarparu cefnogaeth i'r Comisiwn ei hun a hefyd, yn unol â'r trefniadau a wnaethpwyd gan y Comisiwn, i'r Cynulliad. Rhan o'r gefnogaeth a roddant i'r Comisiwn yw rhoi gwybod i'r Comisiynwyr am yr amrywiol ddyletswyddau cyfreithiol y mae angen iddynt gydymffurfio â hwy ac i'w cynghori beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn ateb y dyletswyddau hynny.

15. Beth yw rôl Clerc y Cynulliad?

Clerc y Cynulliad yw Prif Weithredwr y Comisiwn hefyd a'r person sy'n atebol i'r Comisiwn am effeithiolrwydd y gwasanaeth y mae staff yn ei ddarparu i'r Comisiwn ac i'r Cynulliad. Y Clerc hefyd yw'r prif swyddog cyfrifyddu yn y Comisiwn.

16. Beth yw gwaith y "prif swyddog cyfrifyddu"?

Gan fod y Comisiwn yn gwario arian cyhoeddus, mae'n atebol i system swyddogion cyfrifyddu. Mae gan y swyddog cyfrifyddu gyfrifoldeb am sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario yn unol ag egwyddorion "rheoleidd-dra" a "phriodoldeb", mewn geiriau eraill yn unol â'r gyfraith a chyda'r rheolau a gynlluniwyd i sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn briodol ac mewn dull tryloyw.

17. Beth sy'n digwydd os yw corff megis y Comisiwn yn ymddangos i'r swyddog cyfrifyddu i fod yn gweithredu mewn modd sy'n afreolaidd neu'n amhriodol ?

Mae'r swyddog cyfrifyddu (y Clerc yn yr achos hwn) yn was y Comisiwn a'r Comisiwn sy'n penderfynu sut y dylid gweithredu, ac nid y Clerc. Fodd bynnag, byddai'r Clerc mewn achos o'r fath, yn gorfod rhoi cyngor ffurfiol i'r Comisiwn fod y gweithredu yn groes i egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb ac i ofyn i'r Comisiwn roi cyfeiriad

ysgrifenedig i'r Clerc weithredu'r penderfyniad dan sylw. Byddai hyn yn diogelu'r Clerc rhag unrhyw gyfrifoldeb personol er y byddai'n parhau'n ofynnol i'r Clerc ddwyn y mater i sylw Archwilydd Cyffredinol Cymru.

18. Pa faterion mae'r Comisiwn wedi'u hystyried ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2007?

Mae'r Comisiwn wedi cyfarfod 14 gwaith rhwng Mehefin 2007 a Gorffennaf 2008, yn cynnwys dau gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes ac mae wedi ystyried nifer o faterion a gaiff eu rhestru yn Atodiad A.

Atodiad A

Materion sy'n effeithio ar Aelodau'r Cynulliad

- Ystyriwyd materion ynghylch cyflogau a chymorth i Aelodau, - comisiynwyd a chytunwyd ar gylch gwaith y panel adolygu cyntaf a'r ail banel adolygu.
- Ystyriwyd materion ynghylch datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol i sicrhau bod Pwyllgorau/ Aelodau yn cael cefnogaeth briodol.
- Cytunwyd ar newidiadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad
- Cytunwyd ar ganllawiau diwygiedig ar gyflogi aelodau eu teuluoedd gan Aelodau.
- Ystyriwyd canllawiau ar y defnydd o Adnoddau'r Cynulliad gan Aelodau

Materion Llywodraethu Corfforaethol

- Datblygwyd a chytunwyd Strategaeth Comisiwn y Cynulliad a chytunwyd ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/8.
- Cymeradwywyd cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2007/8, y gyllideb atodol ac ar hyn o bryd yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2008/9.
- Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a derbyniwyd cyflwyniad ar ei waith gan y Cadeirydd Annibynnol ac adroddiad blynyddol y Pwyllgor.
- Ystyriwyd a chytunwyd ar gyfres o bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol yn cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg a'i ffurflen cydymffurfio flynyddol gyntaf; Cod Ymddygiad Staff; y datganiad polisi iechyd a diogelwch; y polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (chwythu'r chwiban); caffael, safonau cyllidol, Polisi Diogelwch TGaCh; y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth; y polisi rheoli cofnodion; y polisi gwe-ddarlledu a chytunwyd ar ddatblygiad fframwaith rheoli risg a budd, adroddiad y Pwyllgor Taliadau annibynnol ar dâl uwch staff a chytuno ar ariannu Deddfwriaeth Cymru Ar-lein yn y dyfodol.
- Ystyriwyd a chytunwyd ar gynnwys y ddogfen ymgynghorol ar Un Cynllun Cydraddoldebau, nodwyd canlyniadau'r arolwg cydraddoldebau staff a chytunwyd ar y dull gweithredu gyda golwg ar yr adroddiad ar yr adolygiad a gomisiynwyd yn allanol ar ein harferion recriwtio ac effaith y rhain ar sicrhau bod mwy a mwy o gynrychiolwyr o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn rhan o'n gweithlu.

Ystadau

- Cytunwyd ar yr astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer y defnydd o Adeilad y Lanfa yn y dyfodol, ystyriwyd yr adroddiad a chytunwyd ar y cynllun gweithredu dilynol i ddatblygu canolfan gynadledda, arddangos a chanolfan i ymwelwyr yno.
- Ystyriwyd adroddiad ar gynaliadwyedd y Senedd, yr angen am Ystafell y Gymanwlad
- Ystyriwyd yr egwyddorion ar gyfer strategaeth rheoli asedau.

Materion Cyfathrebu

- Ystyriwyd a chytunwyd ar Strategaeth Gyfathrebu'r Comisiwn

- Ystyriwyd materion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu amrywiol yn cynnwys TGaCh ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff yn y dyfodol (I-newid)
- Cytunwyd ar y dull gweithredu o ran Maniffesto Brandio'r Comisiwn.

Atodiad B

Meysydd Portffolio Comisiynwyr

Mae'r meysydd portffolio yn drawsbynciol a strategol eu naws, ond bu'n bosibl fel arfer adnabod sut mae gwasanaethau a materion yn cysylltu â phortffolios penodol. Mae natur y portffolios yn galluogi Comisiynwyr i weithio ar draws nifer o wasanaethau, yn hytrach na chael eu cyfyngu i feysydd arbennig, sy'n helpu i leihau anhyblygrwydd o ran ffiniau gwasanaethau.

Y Llywydd - Cyfrifoldeb arbennig am hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd, arweiniad rhagorol, datblygu pwerau deddfu y Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.

Elin Jones AC yn y lle cyntaf ac yna Chris Franks AC, **Comisiynydd y Cynulliad sy'n Gwella**– Gwella gwasanaethau i Aelodau a dinasyddion; cynllunio strategol; sicrhau gwerth am arian; cynnwys rhanddeiliaid.
Ymunodd Chris â'r Comisiwn yn ddiweddarach, ond mae wedi cynorthwyo i ddatblygu'r arolwg Aelodau er mwyn gwella gwasanaethau ac mae'n tynnu sylw at feysydd sydd i'w gwella yn rheolaidd. Byddwn yn gofyn am ei gymorth i ddatblygu ein fframwaith risg a gwella a'n dangosyddion perfformiad allweddol.

William Graham AC, **Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad** – Rheoli asedau'r Cynulliad; pobl y Cynulliad (yn cynnwys staff, contractwyr, gwasanaethau a ddarperir i gefnogi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad); y gyllideb; cyflogau a lwfansau'r Aelodau; effeithlonrwydd a llywodraethu da.
Mae gan William ran bwysig i'w chwarae yn y dasg flwyddyn o amser o reolaeth a llywodraeth gyllidol, a bydd yn cynorthwyo gyda materion sensitif ynghylch cefnogaeth ariannol i Aelodau. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Peter Black AC, **Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd** – Sicrhau ansawdd gwaith craffu a'r broses ddeddfwriaethol; cyfathrebu allanol; Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; addysg i ddinasyddion; cyfreithlondeb.
Mae Peter yn gyrru gwaith o ran mentrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae wedi cynorthwyo i osod maes y rhaglen i-newid a'r Strategaeth Gyfathrebu. Arweiniodd lansiad cynlluniau e-ddemocratiaeth y Cynulliad ac ymgynghorwyd ag ef ynglŷn ag adnoddau ychwanegol i fod o gymorth i waith craffu a deddfwriaeth.

Lorraine Barrett AM, **Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy** - Cydraddoldeb; iaith; yr amgylchedd a bod yn niwtral o ran carbon; caffael cynaliadwy a

rheoli'r ystâd. *Mae gan Lorraine ddiddordeb personol pendant yng ngweithrediad y Senedd ac mae'n rhoi cefnogaeth a chyngor i staff ar ymdrin â materion anodd. Mae hi wedi dangos cefnogaeth bersonol i gynlluniau cynaliadwy ac mae wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau staff yn hyn o beth, ac wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldebau yn ogystal â darparu cyngor a sylwadau ar faterion cydraddoldeb.*